**<u>Torri Gwair a Chynnal a Chadw Cyffredinol ym Mynwent Llanrug.</u>**

## Pa mor aml y mae gwair yn cael ei dorri ym Mynwent (Cyngor Cymuned) Llanrug a beth yw'r amserlen flynyddol ar gyfer hyn?

Nid oes amserlen wedi'i gosod gyda dyddiadau penodol. Mae gan y Cyngor Cymuned amserlen ar sail pa mor aml y dylid torri gwair yn ystod y tymor tyfu, Mawrth – Hydref. Mae Is-bwyllgor y Fynwent a Chlerc y Cyngor yn monitro hyn.

## Pwy sy'n talu am dorri gwair a chynnal a chadw cyffredinol y Fynwent?

Mae cynnal a chadw'r Fynwent yn cael ei gyllido gan gyllideb y Fynwent, sy'n rhan o gyllideb gyffredinol y Cyngor Cymuned sy'n cael ei benderfynu yn flynyddol gan y Cynghorwyr.

## Pwy sy'n torri'r gwair y Fynwent?

Mae'r Cyngor Cymuned yn contractio unigolion addas i wneud y gwaith hwn. Mae hyn yn dilyn proses dendro drylwyr sy'n digwydd bob tair blynedd. Mae'r Contractwr yn atebol i'r Cyngor am safon a chyflawni eu gwaith.

## Pwy sy'n gosod y rheolau ar gyfer torri gwair, cynnal a chadw ac atgyweirio cofebion, a thacluso cyffredinol y Fynwent?

Mae'r rheolau yma yn cael eu gosod gan Is-bwyllgor y Fynwent ac yn cael eu cymeradwyo yn flynyddol gan aelodau'r Cyngor Cymuned. Gellir gweld rheolau'r Fynwent ar wefan y Cyngor Cymuned, yn ogystal ag ar hysbysfwrdd y Fynwent. Copïau ar gael hefyd drwy gysylltu â Chlerc y Cyngor.

## Sut y gellir rhoi gwybod i'r Cyngor Cymuned am unrhyw awgrymiadau, sylwadau, cwynion ayb?

Gellir cyflwyno gohebiaeth o'r fath i'r Cynghorwyr a'r Clerc. Mae'r manylion cyswllt ar wefan y Cyngor Cymuned. Fel arall, gall aelodau o'r cyhoedd ddod i gyfarfodydd y Cyngor i fynegi eu barn (mwy o fanylion ar gael gan glerc y Cyngor).